Sgôr er enghraifft Risg Gymedrol neu Sylweddol	Person ifanc 18 oed neu hŷn	Lle mae person ifanc yn 18 oed neu'n hŷn, dylid ymdrin â risg Gymedrol neu Sylweddol o gamfanteisio rhywiol mewn perthynas â'r person ifanc hwn drwy'r Llwybr neu gynllun gwaith arall; cyswllt rhwng y gwasanaethau plant ag Uned Gwarchod y Cyhoedd yr Heddlu i roi sylw i amddiffyn y person ifanc.

Dull gweithredu Aml-asiantaeth

Mae darparu ymateb priodol yn galw am rwydwaith amddiffynnol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae effeithlonrwydd yn dibynnu'n drwm ar ymateb aml-asiantaeth. Mae'r ymateb hwn ar ei orau yn y strwythur a gynigir gan brotocolau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt. Mae hyn yn amlygu'r angen i raeadru gwybodaeth am y protocolau yn barhaus. Drwy sefydlu'r protocolau fel rhan o brif ffrwd y gweithdrefnau diogelu ni fydd rhwystrau fel trosiant staff mwyach yn golygu bod gwaith diogelu yn disgyn drwy'r rhwyd. Mae protocol Cymru gyfan yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

O fewn y fframwaith pedwar categori risg, mae angen gwahanol ymatebion mewn perthynas â phob lefel o risg. Mae camau gweithredu cysylltiol ynghlwm wrth bob un o'r pedwar categori risg.

Categori I – Ddim mewn perygl y camfanteisir yn rhywiol arnynt

(sgôr SERAF 0-5)

Nid oes gan blant a phobl ifanc yng Nghategori I ddangosyddion risg mewn perthynas â chamfanteisio rhywiol. Ni fydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc mewn perygl o rywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt. Fodd bynnag, mae plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad ag asiantaethau cefnogi megis gwasanaethau plant, yn debygol o fod yn agored i niwed mewn rhai ffyrdd.

Mae ar blant a phobl ifanc yr aseswyd eu bod yn y categori hwn angen mynediad at wybodaeth sylfaenol a fydd yn eu galluogi i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r peryglon a all arwain at sefyllfa lle gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae angen mynediad arnynt at wybodaeth a fydd yn eu galluogi i osgoi sefyllfaoedd risg ac i amddiffyn eu hunain. Mae ymarferwyr sy'n gweithio mewn timau gwasanaethau plant mewn sefyllfa dda i ddarparu gwybodaeth o'r fath fel rhan o'u rhyngweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc y maent mewn cysylltiad â hwy.

Mae cwricwlwm Addysg Bersonol, Iechyd a Chymdeithasol (ABICH) yr ysgol yn cynnig llwyfan da y gellir ei ddefnyddio i gyflwyno gwybodaeth ddiogelu sylfaenol, i archwilio syniadau'n ymwneud â pherthnasoedd rhywiol 'iach' ac i roi i blant a phobl ifanc ymdeimlad o gyfrifoldeb a rheolaeth dros eu cyrff a hwy eu hunain. Mae angen hefyd i hyn gynnwys cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddeall y peryglon gwirioneddol sydd ymhlyg mewn aros allan yn hwyr a diflannu o'r ysgol, o'r cartref neu o ofal. Mae gwaith mewn ysgolion eisoes yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus gan wasanaethau Barnardo's mewn mannau eraill yn y DU. Mae Barnardo's Cymru yn datblygu pecyn adnoddau gwybodaeth i ysgolion i helpu athrawon a staff bugeiliol i ymdrin â'r mater hwn o ddiogelu.

Categori 2 – Risg fach (sgôr SERAF 6-10)

Mae plant a phobl ifanc yng Nghategori 2 yn debygol o fod â nifer o ffactorau bod yn agored i niwed megis problemau rhianta a phrofiadau plentyndod. Gallai un neu ddau o ddangosyddion risg hefyd fod yn bresennol. Mae'r ffactorau bod yn agored i niwed hyn yn cynyddu'r risg y caiff plant a phobl ifanc o'r fath eu paratoi ar gyfer camfanteisio rhywiol. Mae angen gwaith ymyrryd ac atal cynnar i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd â nifer o ffactorau bod yn agored i niwed.

Dylid ystyried cynnull cyfarfod aml-asiantaeth i sicrhau y rhennir yr holl wybodaeth, ac i gytuno ar gynllun i fynd i'r afael â risg ac anghenion. Mae angen rhaglen wedi'i chynllunio i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio rhywiol ac i roi i blant a phobl ifanc yr arfau i amddiffyn eu hunain. Dylai ymyriad o'r fath godi ymwybyddiaeth o risg, darparu gwybodaeth am gadw eu hunain yn ddiogel ac ymdrin â materion penodol dynodedig sy'n peryglu diogelwch. Dylai rhaglen o'r fath gael ei chyflwyno gan ymarferydd sydd â pherthynas waith dda â'r plentyn neu'r person ifanc. Dylai gynnwys cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddeall y peryglon gwirioneddol sydd ymhlyg mewn aros allan yn hwyr a diflannu o'r ysgol, o'r cartref neu o ofal.

Mae angen ailasesu risg yn rheolaidd fel rhan o'r gwaith arfaethedig yr ymgwymerir ag ef gyda phlentyn neu berson ifanc. Dylai unrhyw newid arwyddocaol mewn amgylchiadau a allai wneud yr unigolyn yn fwy agored i niwed neu unrhyw ymddygiad sy'n gysylltiedig â risg arwain at ailasesu'r risg ar unwaith.

Categori 3 – Risg gymedrol (sgôr SERAF 11-15)

Mae plant a phobl ifanc y nodwyd eu bod yng Nghategori 3 yn debygol o fod â nifer o ffactorau bod yn agored i niwed yn ogystal ag un neu fwy o ddangosyddion risg. Mae'r ystod anghenion yn y categori risg hwn yn eang o ran y gwahaniaeth rhwng plentyn neu berson ifanc sydd â sgôr SERAF o 11 a phlentyn neu berson ifanc sydd â sgôr SERAF o 15. Gall plant a phobl ifanc sydd â risg gymedrol gael eu paratoi neu eu targedu i bwrpas cam-drin manteisgar a/neu berthynas gamfanteisiol gan oedolion sy'n cam-drin.

Yn y categori hwn y mae unrhyw wybodaeth a hepgorir yn gallu cael yr effaith fwyaf ar gywirdeb yr asesu a'r rhannu gwybodaeth. Dylai cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth o dan y protocol lleol ar gyfer plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol gael ei gynnull mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yr aseswyd bod risg gymedrol iddynt (yn unol â Chanllawiau 2000 yr Adran Iechyd/LICC¹). Mae cyfarfodydd strategaeth aml-asiantaeth yn golygu bod modd i gynrychiolwyr asiantaethau allweddol gyfnewid gwybodaeth yn effeithiol â'i gilydd. Dylai'r cyfarfodydd gynnwys yr unigolyn sydd wedi nodi'r risg neu wedi mynegi'r pryder ynghylch y plentyn neu'r person ifanc a chynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Plant, yr Heddlu, Iechyd, Addysg, Lleoliadau ac unrhyw wasanaeth arbenigol camfanteisio'n rhywiol ar blant, ynghyd ag unrhyw asiantaethau perthnasol eraill. Dylai cyfarfodydd strategaeth aml-asiantaeth ymateb i anghenion plant a phobl ifanc y nodir bod risg y camfanteisir yn rhywiol arnynt ond nad oes sicrwydd o hynny, yn ogystal ag ymateb i achosion lle mae tystiolaeth am gamfanteisio rhywiol ar gael. Mewn ymchwil yr ymgwymerwyd ag ef gyda 30 o fwrdeistrefi Llundain a dau awdurdod lleol y tu allan i Lundain, dim ond dau awdurdod lleol a arolygwyd a ddywedodd iddynt ganfod camfanteisio rhywiol drwy i berson ifanc ei ddatgelu. Yn yr un ymchwil, roedd yr ymatebwyr yn croesawu cyflwyno cyfarfodydd strategaeth aml-asiantaeth a nodasant mor anodd yw defnyddio prosesau amddiffyn plant traddodiadol gyda'r math hwn o gam-drin.² Yn wyneb natur gymhleth a chuddiedig y math hwn o gam-drin nad yw plant a phobl ifanc prin byth yn ei ddatgelu, mae'n bwysig gweithio ar sail pryderon yn hytrach na dibynnu ar dystiolaeth bendant. Mae fframwaith SERAF yn galluogi i gamau diogelu gael eu cysylltu â thystiolaeth o risg, gan hwyluso camau ataliol ac ymyriadau priodol.

Dylai'r cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth gytuno ar gynllun a chmau amddiffyn i gynnwys gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn neu'r person ifanc unigol. Dylai unrhyw gynllun amddiffyn ac ymyriadau uniongyrchol ganolbwyntio ar leihau'r peryglon penodol sy'n peri pryder. Yn arbennig, lle mae aros allan yn hwyr a/neu fynd ar goll o'r ysgol, o'r cartref neu o ofal wedi cael eu nodi, dylid rhoi sylw i'r rhain fel blaenoriaeth. Ni ddylai unrhyw asiantaethau fychanu goblygiadau diogelu aros allan yn hwyr a mynd ar goll. Bydd hyd yr ymyriad sy'n ofynnol yn wahanol ym mhob achos ac mae'n dibynnu ar amgylchiadau penodol y plentyn neu'r person ifanc a natur y peryglon sydd dan sylw. Gall plant a phobl ifanc unigol ymateb i ymyriadau mewn ffyrdd gwahanol a bydd hyn hefyd yn effeithio ar hyd yr ymyriad hwnnw.

Gall newid mewn amgylchiadau megis, er enghraifft, newid lleoliad, fod yn fodd i leihau'r peryglon mewn cyfnod cymharol fyr o amser. I'r gwrthwyneb, gallai newid lleoliad fod yn fodd i gynyddu'r risg yn gyflym. Dylai'r grŵp strategaeth aml-asiantaeth gynnal o leiaf un cyfarfod adolygu i sicrhau bod camau wedi cael eu cymryd, asesu'r cynnydd, ystyried effaith yr ymyriadau, rhannu rhagor o wybodaeth ac ailasesu'r lefel o risg. Dylai risg gael ei monitro a'i hadolygu'n ofalus dros amser mewn perthynas â phlant a phobl ifanc y bu pryderon yn eu cylch fel rhan o'r prosesau asesu a chynllunio sydd eisoes wedi cael eu sefydlu mewn timau. Mae asesiadau risg Lefel 1 a Lefel 2 SERAF, asesiad STEP SERAF a'r gronfa ddata wedi'u llunio i hwyluso'r broses fonitro hon.

¹ Yr Adran Iechyd, (2000) Diogelu Plant sy'n Ymwneud â Phuteindra: Canllawiau Atodol ar Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, Llundain: yr Adran Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Swyddfa Gartref, Yr Adran Addysg a Chyflogaeth.

² Harper, Z. a Scott, S, (2005) *Meeting the needs of sexually exploited young people in London*. Barnardo's, Barkingsside.

Categori 4 – Risg sylweddol (sgôr SERAF 16+)

Lle'r asesir bod plant neu bobl ifanc yng Nghategori 4 mae arwyddion clir bod risg sylweddol y camfanteisir yn rhywiol arnynt neu eu bod eisoes yn cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol. Mae hyn yn debygol o gynnwys achosion lle mae'r cam-drin yn digwydd yn gyson, yn cael ei wadu a lle mae gorfodaeth a rheolaeth ymhlyg yn hynny.

Dylid cynnull cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth o dan y protocol lleol ar gyfer plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yr aseswyd bod 'risg sylweddol' iddynt (yn unol â Chanllawiau 2000 yr Adran Iechyd/LICC). Megis gyda Chategori 3, dylai cyfarfodydd strategaeth aml-asiantaeth sicrhau bod cynrychiolwyr asiantaethau allweddol yn cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol â'i gilydd. Dylai'r cyfarfodydd gynnwys yr unigolyn sydd wedi nodi'r risg neu wedi mynegi'r pryder ynghylch y plentyn neu'r person ifanc a chynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Plant, yr Heddlu, Iechyd, Addysg, Lleoliadau ac unrhyw wasanaeth arbenigol camfanteisio'n rhywiol ar blant, ynghyd ag unrhyw asiantaethau perthnasol eraill. Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod gytuno ar gynllun a champau amddiffyn i gynnwys gwaith uniongyrchol dwys dros dymor hir gyda'r plentyn neu'r person ifanc unigol. Dylid cynnal cyfarfodydd adolygu ar hyd y cyfnod tra bydd ymyriadau arbenigol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu, ac i asesu cynnydd ac effaith ymyriadau y cytunwyd arnynt. Dylid monitro risg yn ofalus a'i hailasesu'n rheolaidd fel rhan o'r broses lleihau risg.

Dylai pob asiantaeth sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc ymdrin â materion camfanteisio rhywiol boed hynny mewn perthynas, er enghraifft, â lleoliadau, ymddygiad troseddol, gwaith gyda theulu'r plentyn neu'r person ifanc, addysg neu iechyd rhywiol fel rhan o'i gwaith gyda'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw. Mae gweithredu cydgysylltiedig a chyson gan yr holl asiantaethau yn gwneud yr ymyriadau mor effeithiol â phosibl ac yn cynyddu effaith y gweithredu a gynllunnir i'r eithaf. Dylai pob asiantaeth fabwysiadu a chytuno ar ddull gweithredu cyson nad yw'n anwybyddu nac yn goddef ymddygiad sy'n creu risg. Mae angen i bob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol fod yn ymwybodol o ddwyster a natur tymor hir y gweithredu sy'n ofynnol. Mae presenoldeb amryw o ffactorau bod yn agored i niwed a risg ym mywydau plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg sylweddol yn golygu'n aml ei bod yn anodd gweithio gyda hwy a bod canlyniadau cadarnhaol yn cymryd amser. Trafodir yn fanylach ffyrdd priodol o weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae risg sylweddol iddynt gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, neu fod hynny'n digwydd, yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Y trothwy i Gategori 4 yn y fframwaith yw sgôr SERAF o 16 neu fwy. O'r is-sampl 'risg sylweddol' yn yr astudiaeth beilot, roedd yr awdurdod lleol eisoes wedi nodi bod camfanteisio rhywiol yn ystyriaeth mewn 11 o'r 67 o achosion. Ym mhob un ond un o'r 11 achos a oedd wedi cael eu nodi'n barod gan yr awdurdod lleol, cafwyd sgôr SERAF o 30 neu fwy (rhwng 31 a 49). Mae hyn yn awgrymu bod yn rhaid i fwyafrif sylweddol o ffactorau bod yn agored i niwed a dangosyddion risg fod yn bresennol i blentyn neu berson ifanc cyn y caiff camfanteisio rhywiol ei nodi fel ystyriaeth drwy weithdrefnau ac arferion safonol amddiffyn plant. Drwy ddefnyddio fframwaith asesu risg addas i'w bwrpas o ran camfanteisio rhywiol, dylai fod yn bosibl nodi'r ffactorau bod yn agored i niwed a risg mewn perthynas â'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yn gynharach. Dros amser, dylai asesu fel mater o drefn, nodi achosion yn gynharach ac ymyriadau priodol leihau'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n agored i risg sylweddol o gamfanteisio rhywiol. Llunnir adnoddau SERAF i gefnogi'r broses hon.

Pobl ifanc 18 oed a hŷn, y mae ganddynt hawl i Wasanaethau Ôl-ofal

Mae'r canllawiau atodol Diogelu plant sy'n ymwneud â phuteindra (2000) yn berthnasol i bob plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, cyfeirir at ddyletswydd gofal tuag at bobl ifanc hŷn sy'n ymadael â gofal o ran y canllawiau diogelu.

Lle ceir pryderon am y risg y camfanteisir yn rhywiol ar berson ifanc sydd â hawl i gael gwasanaethau o dan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, yn gyffredinol dylid dilyn y camau cysylltiol a nodir uchod.

O ran achosion Categori 1 a Chategori 2, dylid ymdrin â chamau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth fel rhan o'r broses cynllunio llwybr. Dylid asesu risg ac ymdrin â risg fel rhan o'r prosesau presennol. Yn yr un modd, lle caiff pobl ifanc eu hasesu fel achosion Categori 3 neu Gategori 4, dylid ymdrin â chamfanteisio rhywiol drwy'r llwybr neu gynllun gwaith arall. Lle mae plant a phobl ifanc dan 18 oed yn y cwestiwn, mae angen cyswllt rhwng y Gwasanaethau Plant ac Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr Heddlu hefyd wrth ymdrin ag amddiffyn y person ifanc.

SERAF (Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol)

Risg ac ymyriadau: amddiffyn plant a phobl ifanc



Dylai **ymyriadau** gyda phlant a phobl ifanc unigol anelu at ymdrin â'r meysydd penodol sy'n peri pryder. Dylid dechrau gyda'r meysydd mwyaf peryglus neu'r rhai sy'n golygu mwyaf o risg yn ogystal â'r meysydd hynny a nodwyd gan y plentyn neu'r person ifanc fel meysydd y maent yn barod i weithio arnynt i wneud newidiadau. Mae hyn yn cefnogi lleihau risgiau ac yn symud achosion ymlaen tuag at ganlyniadau cadarnhaol. Mae Barnardo's Cymru wedi mabwysiadu system goleuadau traffig³ fel cyfrwng i fonitro canlyniadau cadarnhaol. Mae asesiad STEP SERAF yn galluogi plant a phobl ifanc i asesu eu hunain, yn ogystal â chaniatáu cymharu asesiad y plentyn neu'r person ifanc ei hun o'i sefyllfa ag asesiad ei weithiwr. Mae asesiad STEP SERAF wedi ei fwriadu i ysgogi trafodaeth a dadl a thrwy ei ddefnyddio'n rheolaidd dros amser mae modd mapio cynnydd a newid. Gall plant a phobl ifanc ddefnyddio'r arf hwn i flaenoriaethu'r meysydd gwaith y byddant yn ymgymryd â hwy gyda'u gweithwyr a gallant drafod pa gamau sy'n ofynnol i'w symud i lefel is o risg. Yn y modd hwn caiff plant a phobl ifanc eu hannog i gyfrannu at ganfod y gwahanol risgiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio rhywiol fel y maent yn ymwneud â'u bywydau hwy. Mae asesiad STEP SERAF yn rhan annatod o waith lleihau risg.

³ Crëwyd gan wasanaeth Barnardo's ar Lannau Mersi

Lleihau risg i gael canlyniadau cadarnhaol

Mae modd ymdrin â phob maes sy'n achosi risg i blant a phobl ifanc o safbwynt camfanteisio rhywiol er mwyn hyrwyddo diogelu a sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Mae lleihau'r risgiau hyn yn golygu gweithio drwy ddull aml-asiantaeth sy'n darparu rhwydweithiau amddiffynnol a phe cynnau gofal cyfannol.

Mae gwasanaethau Barnardo's ar draws y DU wedi cytuno ar set o ganlyniadau cenedlaethol y mae gwasanaethau'n gweithio tuag atynt, ac mae'r Gwasanaeth Seraf yn gweithio tuag at ddau ganlyniad ychwanegol hefyd. Mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu cyfateb yn erbyn saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru i holl blant a phobl ifanc Cymru.

1. Bod y plentyn neu'r person ifanc mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac yn gallu derbyn cymorth. (Nod Craidd 5 LICC).
2. Bod gan y plentyn neu'r person ifanc le addas i fyw ynnddo, gyda gofal a chymorth digonol i'w anghenion. (Nod Craidd 6 LICC).
3. Nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd ar goll o'i gartref/o ofal. (Nod Craidd 6 LICC).
4. Bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwrthdaro llai â rhieni neu ofalwyr. (Nod Craidd 6 LICC).
5. Nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cymysgu ag oedolion rheolgar/perylus. (Nod Craidd 3 LICC).
6. Nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cymysgu â chyfoedion sy'n ymwneud â chamfanteisio rhywiol. (Nod Craidd 3 LICC).
7. Bod y plentyn neu'r person ifanc yn mynychu addysg/hyfforddiant/gwaith. (Nod Craidd 2 LICC).
8. Bod y plentyn neu'r person ifanc yn ymwybodol o beryglon iechyd rhywiol a'i fod yn amddiffyn ei hun yn briodol. (Nod Craidd 2 a 3 LICC).
9. Nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc broblemau o ran defnyddio cyffuriau/alcohol. (Nod Craidd 3 LICC).
10. Nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn wynebu trais. (Nod Craidd 3 LICC).
11. Bod y plentyn neu'r person ifanc yn gallu adnabod perthynas beryglus a chamfanteisiol a mynnu ei hawliau mewn perthynas. (Nod Craidd 2 LICC).
12. Bod y plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel rhag camdriniaeth. (Nod Craidd 3 LICC)
13. Bod gan y plentyn neu'r person ifanc berthynas gadarnhaol gyson gydag o leiaf un oedolyn cefnogol. (Nod Craidd 5 a 6 LICC).
14. Bod anghenion iechyd y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu. (Nod Craidd 3 LICC).
15. Bod gan y plentyn neu'r person ifanc gyfleoedd i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a bod ganddo'r hyder i gymryd rhan (Nodau Craidd 2 a 4 LICC).
16. Bod gan y plentyn neu'r person ifanc ystod o sgiliau byw'n annibynnol (Nod Craidd 2 LICC).
17. Bod y plentyn neu'r person ifanc yn ymddwyn yn gadarnhaol ac yn ufuddhau i'r gyfraith (Nod Craidd 2 LICC).
18. Bod sgôr SERAF y plentyn neu'r person ifanc wedi gostwng (Nod Craidd 3 LICC).

Gweithio gyda phlant a phobl ifanc y mae risg sylweddol iddynt gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, neu sy'n dioddef camfanteisio rhywiol

Erbyn yr adeg ym mywyd plentyn neu berson ifanc pan fydd risg sylweddol iddo gael ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu fod hynny eisoes yn digwydd, mae wedi bod drwy batrwm cymhleth o brofiadau bywyd sy'n cael effaith negyddol ar bob dimensiwn o'i fywyd. O'r herwydd gallant ymddangos i asiantaethau megis yr heddlu fel pobl ifanc sy'n 'deall byd y stryd' neu fel rhai 'problemus' yn hytrach na bod angen cefnogaeth arnynt. Mae gwybodaeth, hyfforddiant, dulliau canfod risg, protocolau a gweithdrefnau a dulliau asesu yn arwain at gynllun ymyrryd. Dylai gwaith ymyrryd, cefnogi a gweithredu gael ei seilio ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc a dylai gael ei ddarparu gan weithiwr y gellir ymddiried ynddo ar y cyd â rhwydwaith amddiffynnol o asiantaethau priodol.

Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae camfanteisio rhywiol yn broblem iddynt, mae angen gweithredu'n gyfannol drwy fuddsoddi amser ac adnoddau mewn ymyriadau tymor tir. Un agwedd bwysig ar y gwaith yw cadw cysylltiad a bod ar gael i blant a phobl ifanc nes iddynt gyrraedd pwynt pryd y maent yn barod i feddwl am eu sefyllfa. Gall y broses a'r amser a dreulir gan weithiwr ar feithrin perthynas fod yn ffactor pwysig er mwyn dod â hwy i'r pwynt hwnnw. Dylid manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd prin hyn, pan godant, gan sicrhau bod y math cywir o gefnogaeth ar gael pan fo'r person ifanc ei angen. Ni ellir cyflawni hyn ond drwy gydweithrediad a chydweithio rhwng rhwydwaith sefydlog o asiantaethau priodol.

Mae sefydlu perthynas bositif, o ymddiriedaeth, gyda phlant a phobl ifanc mor fregus yn cymryd amser. Mae angen datblygu perthynas sy'n cynnig rhywbeth pendant i'r plentyn neu'r person ifanc. Ar yr un pryd, mae'n bwysig cydnabod nad darparu cyfeillgarwch y mae gweithwyr a bod yna wahaniaethau grym anorfod. Rhaid i newid ddigwydd ar gyflymder a bennir gan y person ifanc, gan gynnig dewisiadau gwirioneddol a hyrwyddo ymdeimlad o reolaeth bositif ar ran y person ifanc. Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i sefyllfaoedd risg a phrofiadau o gamfanteisio rhywiol, rhaid gweithredu mewn ffordd nad yw'n barnu a rhaid i'r staff fod yn 'ansociadwy'. Mae angen bod yn onest bob amser a gwrando ar farn plant a phobl ifanc a pharchu'r farn honno.

- Dylai'r ymyrryd ddechrau drwy feithrin perthynas gyda phlant a phobl ifanc ac asesu'r risg a'r ffactorau bod yn agored i niwed.
- Bydd trafodaeth onest a chynnwys pob plentyn a pherson ifanc yn y prosesau asesu a chynllunio yn help iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac i deimlo perchenogaeth ar y cynllun a chysylltiad ag ef.
- Dylai'r cynllun ymdrin â phob maes risg a nodwyd.
- Mae angen i weithwyr fod yn realistig am y disgwyliadau a deall bod hwn yn waith dwys, tymor hir.

Mae Barnardo's wedi ymwneud â gwaith camfanteisio'n rhywiol ar blant er 1995. Gellir crynhoi nodweddion craidd model ymarfer Barnardo's fel hyn: Mynediad, Sylw, Allgymorth pendant ac Eiriolaeth (yn Saesneg, y pedair A, sef Access, Attention, Assertive outreach ac Advocacy).⁴

⁴ Mae'r wybodaeth am y pedair A wedi cael ei chymryd yn uniongyrchol gan mwyaf o neu wedi cael ei haddasu o: Scott, S. a Skidmore, P. (2006) *Reducing the risk: Barnardo's support for sexually exploited young people: A two-year evaluation*, td48-49, Barnardo's, Barkingside.

Mynediad

Mae gwasanaethau Barnardo's yn cyfrannu tuag at ddatblygu protocolau effeithiol yn eu hardal er mwyn sicrhau llwybrau effeithiol o gyfeirio. Mae hyn yn cynnwys gwaith rhyngasiantaethol i hybu ymwybyddiaeth a chynyddu'r gallu i ganfod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl.

Rhaid darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc sydd â bywydau llawn anhrefn ac sydd efallai â hanes o berthnasoedd gwael gyda gweithwyr proffesiynol. Rhaid i wasanaethau gael eu cyflenwi gan staff sy'n cymryd amser i feithrin perthnasoedd a seilir ar ymddiriedaeth. Mae darparu cymorth i bobl ifanc ar eu telerau hwy yn hanfodol; felly hefyd bod yn onest am derfynau cyfrinachedd.

Sylw

Oherwydd eu profiadau yn eu bywydau, mae plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, neu sydd eisoes yn cael eu cam-drin felly, yn annhebygol o fod ag oedolion sy'n poeni amdanynt ac yn rhoi sylw cadarnhaol iddynt yn eu bywydau. Mae hyn yn eu gadael yn agored i sylw oedolion camdriniol ac yn barod i ymateb iddynt. Nod gwasanaethau Barnardo's yw darparu sylw cyson a pharhaus gan weithiwr dynodedig. Mae hyn yn meithrin perthnasoedd amddiffynnol, cefnogol lle gall plant a phobl ifanc deimlo'n ddigon diogel i ddechrau gwneud newidiadau yn eu bywydau. Mae'r dull hwn yn darparu perthynas gadarnhaol gydag oedolyn diogel yn lle perthynas anniogel gydag oedolyn camdriniol.

Allgymorth pendant

Mae angen technegau ymwneud parhaus ac arloesol. Mae dycnwch cyson gweithwyr yn fodd i argyhoeddi plant a phobl ifanc eu bod yn destun pryder a gofal diffuant. Mae technegau ymwneud parhaus o'r fath yn bwysig i wrthweithio dylanwad oedolion camdriniol.

Eiriolaeth

Rhaid i gymorth effeithiol gynnwys ystod o asiantaethau. Mae gweithredu cydgysylltiedig a chyson gan yr holl asiantaethau yn gwneud yr ymyriadau mor effeithiol â phosibl ac yn cynyddu effaith y gweithredu a gynllunnir i'r eithaf. Mae eiriol ar ran plant a phobl ifanc am y ddarpariaeth y mae ei hangen arnynt gan wahanol asiantaethau yn rôl allweddol i staff. Mae enghreifftiau ymarfer yn dangos bod eiriol am y math iawn o gymorth ar yr adeg iawn yn gallu bod yn neilltuol o bwysig o ran darparu 'trobwyt' ym mywyd person ifanc.